OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 Rhif 1285 (Cy. 324)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu uchafswm treuliau etholiad ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu chwyddiant ers i'r uchafswm gael ei amrywio ddiwethaf gan Orchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) 2014 (O.S. 2014/1870).

Mae uchafswm treuliau etholiad ymgeiswyr yn cynnwys swm penodedig (a fynegir mewn punnoedd) plws swm (a fynegir mewn ceiniogau) ar gyfer pob cofnod yn y gofrestr etholwyr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

# 2021 No. 1285 (W. 324)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Representation of the People (Variation of Limits of Candidates' Election Expenses) (Wales) Order 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order increases the maximum amount of candidates' election expenses at local government elections in Wales. The increase reflects inflation since the maximum amount was last varied by the Representation of the People (Variation of Limits of Candidates' Election Expenses) Order 2014 (S.I. 2014/1870).

The maximum amount of candidates' election expenses consists of a fixed amount (expressed in pounds) plus a sum (expressed in pence) for each entry in the register of electors.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2021 Rhif 1285 (Cy. 324)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) (Cymru) 2021

*Gwnaed* *17 Tachwedd 2021*

*Yn dod i rym* *1 Ionawr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 76A(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**), a chan ystyried ei bod yn hwylus o ganlyniad i newidiadau yng ngwerth arian, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn(**2**):

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Amrywio Terfynau Treuliau Etholiad Ymgeiswyr) (Cymru) 2021 a daw i rym ar 1 Ionawr 2022.

(**1**) 1983 p. 2 ("Deddf 1983"); mewnosodwyd adran 76A gan adran 14 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) ac fe'i hamnewidiwyd gan adran 133(1) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1983, o ran Cymru, gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) ac Atodlen 1 iddo.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2021 No. 1285 (W. 324)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Representation of the People (Variation of Limits of Candidates' Election Expenses) (Wales) Order 2021

*Made* *17 November 2021*

*Coming into force* *1 January 2022*

The Welsh Ministers, in exercise of the power conferred on them by section 76A(1)(a) of the Representation of the People Act 1983(**1**), and considering it expedient in consequence of changes in the value of money, make the following Order(**2**):

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the Representation of the People (Variation of Limits of Candidates' Election Expenses) (Wales) Order 2021 and it comes into force on 1 January 2022.

(**1**) 1983 c. 2 ("the 1983 Act"); section 76A was inserted by section 14 of the Representation of the People Act 1985 (c. 50) and substituted by section 133(1) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41). There are other amendments not relevant to this Order.

(**2**) The powers of the Secretary of State under the 1983 Act, were transferred, in respect of Wales, by article 45 of, and Schedule 1 to, the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

**Amrywio terfyn treuliau mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru**

**2.** Yn adran 76(2)(b) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**) (uchafswm treuliau ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol ac eithrio etholiad o dan Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999(**2**)), o flaen is-baragraff (ii) mewnosoder—

> "(ic) at a local government election in Wales, £806 together with an additional 7p for every entry in the register of electors;".

**Variation of expenses limit at a local government election in Wales**

**2.** In section 76(2)(b) of the Representation of the People Act 1983(**1**) (maximum amount of a candidate's expenses at a local government election other than an election under the Greater London Authority Act 1999(**2**)), before sub-paragraph (ii) insert—

> "(ic) at a local government election in Wales, £806 together with an additional 7p for every entry in the register of electors;".

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
17 Tachwedd 2021

Minister for Finance and Local Government, one of the Welsh Ministers
17 November 2021

©ⓗHawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Diwygiwyd adran 76(2)(b) gan Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p. 51), gan Ran 1 o Atodlen 13 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), gan baragraffau 1 ac 20 o Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p. 29), gan baragraffau 1 a 18 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2), gan O.S. 2005/269, O.S. 2014/1870 ac O.S. 2020/1634.

(**2**) 1999 p. 29.

(**1**) Section 76(2)(b) was amended by Schedule 17 to the Local Government Act 1985 (c. 51), by Part 1 of Schedule 13 to the Education Reform Act 1988 (c. 40), by paragraphs 1 and 20 of Schedule 3 to the Greater London Authority Act 1999 (c. 29), by paragraphs 1 and 18 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000 (c. 2), by S.I. 2005/269, S.I. 2014/1870 and S.I. 2020/1634.

(**2**) 1999 c. 29.

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1285

ISBN 978-0-348-39166-4

9 780348 391664